
Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenwyr ifanc!

# Dod i adnabod

# Ffion Emlyn




## Crynodeb:

*Pen-blwydd Hapus?* yw nofel gyntaf Ffion. Ar ddiwrnod ei phen-blwydd yn 32 mlwydd oed mae Martha yn cael anrheg arbennig iawn gan ei rhieni. Mae'r newyddion yn ei gyrru hi ar daith fydd yn newid ei bywyd am byth. Mae'r gomedi dywyll hon yn dilyn ei siwrnai mewn bws i Lundain, ar goll yng nghefn gwlad Caerfyrddin, wrth iddi guddio mewn camperfan ar draeth ym Mhorthmadog a chyfaddef i lofruddiaeth.



## Bywgraffiad

Yn wreiddiol o Feddgelert, treuliodd Ffion gyfnodau yn byw yng Nghaerdydd a Chaernarfon a theithio ychydig o'r byd cyn dychwelyd i bentref y ci enwog. Fe wnaeth fwynhau gyrfa ym myd y theatr cyn ymuno â'r BBC i weithio fel cynhyrchydd radio gyda chyfnodau fel cynhyrchydd stori a golygydd sgript ar wahanol raglenni'r BBC. Mae hi yno bellach ers ugain mlynedd.

**Rho ychydig o dy gefndir inni…**

Ges i fy magu ym Meddgelert a mynd i ysgol gynradd y pentref, wedyn i Ysgol Eifionydd, Porthmadog ac ymlaen i Goleg y Drindod Caerfyrddin i astudio theatr. Mi dreuliais i gyfnod yn yr Unol Daleithiau yn astudio cyfarwyddo (a theithio'r wlad).

Mi oedd Mam yn rhedeg gwesty bach ac mi oedd hi'n gweithio'n galed iawn. Oherwydd hynny ges i lot fawr o ryddid fel plentyn ac mi o'n i'n annibynnol iawn. Mi oeddwn yn treulio dipyn o amser efo Dad a mi ges i fagwraeth hapus iawn. Mi wnes i fwynhau'r brifysgol yn fawr – mi ges i brofiadau gwych yn sgwennu, actio, cyfarwyddo a goleuo. Wedi hynny, mi fues i'n byw yn y Gogledd ac yng Nghaerdydd, yn ddibynnol ar waith llawrydd yn actio, sgwennu a chyfarwyddo i gwmnïau theatr. Pan o'n i'n drideg oed wnes i ddod yn ôl i Gaernarfon. Erbyn hyn rwy'n gweithio i'r BBC ers tua ugain mlynedd ac yn byw ym Meddgelert. Rwy wedi gweithio fel golygydd sgript a chynhyrchydd ar nifer o operâu sebon, fel *Eileen/Rhydeglwys*, *Pobol y Cwm*, *Casualty* a nifer o ddramâu a chomedïau radio, ac fel cynhyrchydd rhaglenni cyffredinol i Radio Cymru.

**Dywed ychydig am *Pen-Blwydd Hapus?***

Mae'r syniad gen i ers blynyddoedd am rywun yn mynd ar daith i chwilio am rywbeth neu rywun a bod yna bobl gwahanol yn ymuno â nhw nes bod yna griw mawr iawn ar y daith! Mae yna bwysau i fwynhau a dathlu penblwyddi ac mi o'n i'n hoffi'r syniad bod yna rywbeth mawr yn cael ei ddatgelu, bron fel anrheg pen-blwydd sy ddim yn teimlo fel anrheg ar y pryd! Er mod i eisiau creu teimlad cynnes, positif i'r nofel, mae yna elfen dywyll ynddi hefyd. Mae yna waed, cyllell a sawl enghraifft o reoli o fewn perthynas. Mi oedd y graddfeydd gwahanol o reolaeth o fewn perthynas yn rhywbeth oeddwn i eisiau ei archwilio efo'r cymeriadau. Mae hiwmor yn bwysig iawn i mi ac mae yna ffin denau iawn rhwng y digrif a'r difrif. Yn sicr fyswn i ddim wedi ymdopi efo'r cyfnodau anodd heb gael chwerthin, felly mae fy sgwennu yn dueddol o gynnwys hiwmor tywyll.

Dwi'n gobeithio y bydd darllenwyr yn hoffi bod ar y daith efo Martha ac yn dod i deimlo'n rhan o'r teulu mawr o gymeriadau – fel dwi wedi dod i deimlo dros fisoedd o sgwennu.

